**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**Dyddiad:** 13 Hydref 1999

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl: CYMORTH GWEITHREDU**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw rhoi esboniad manylach i’r Pwyllgor o'r hyn yw "cymorth gweithredu" ac o dan pa bwerau y gellir ei roi. At hynny, rhoddir enghraifft o sut mae cymorth gweithredu wedi’i ddefnyddio i geisio annog cwmnïau i ddarparu gofal plant.

**Beth yw cymorth gweithredu?**

2. Math o Gymorth Gwladol a ganiateir yn unol â chanllawiau cymorth rhanbarthol y Comisiwn Ewropeaidd yw’r cymorth gweithredu mewn ardaloedd rhanddirymiad 87(3)(a) (ardaloedd Amcan1). Mae’n fath o gymorth sydd wedi’i anelu at leihau costau gweithredu busnesau; naill ai drwy roi cymorthdaliadau iddynt neu drwy leihau eu biliau treth. Er hynny, nid yw’n cwmpasu cymorthdaliadau cyflogi megis gostwng Yswiriant Gwladol neu gymorth ar gyfer buddsoddi cyfalaf, sy'n dod o fewn cwmpas setiau gwahanol o reoliadau’r CE.

3. Gellir rhoi cymorth gweithredu naill ai fel:

consesiwn treth; neu fel

grant.

Rhaid i Gyfarwyddiaeth Cystadleuaeth y Comisiwn Ewropeaidd (CGCE) roi sêl bendith i bob cymorth gweithredu a roddir.

**Consesiynau Treth**

4. Gellir cael dau fath o gonsesiwn treth:

gostyngiad yng nghyfradd y dreth (gan gynnwys toll neu gyfraddau); neu

gredyd treth.

Hwyrach y gellir rhoi gostyngiadau treth i bob cwmni o fewn ardal benodol – ee Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fel arall, gellid targedu mathau penodol o gwmni – ee. y rhai o fewn sectorau penodol. Gellid hefyd ar un olwg ostwng trethi cwmnïau sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol – er enghraifft, gwaith ymchwil a datblygu; neu ddarparu cyfleusterau gofal plant. Er hynny, mae trwch y gwariant hwn yn wariant cyfredol, ac felly, caiff ei dynnu o'r elw a gyfrifir at ddiben treth. Yn yr achosion hyn, gellid rhoi credyd treth.

5. Mae consesiynau treth cyffredinol wedi'u targedu'n wael. Oddi tanynt, mae pob cwmni'n gymwys, p'un a ydynt yn cyfrannu at ffyniant economaidd ai peidio neu a wnaeth y consesiwn welliant materol i allu'r busnes i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Gwelir yr un peth gyda chredydau treth ar gyfer gweithgareddau penodol gan y byddai hawl gan bob cwmni sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath gael credyd treth hyd yn oed pe baent wedi gwneud yr un penderfyniad <u>heb</u> gonsesiwn treth (a elwir yn "*deadweight*"). Serch hynny, gellid dyfeisio cynllun consesiynau sy'n seiliedig ar **newidiadau** mewn gwariant, i leddfu'r broblem hon.

6. Cyfrifoldeb Trysorlys Ei Mawrhydi yw mwyafrif y consesiynau treth, a byddai angen eu perswadio o'r angen am gonsesiynau o'r fath. Er hynny, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol rai pwerau mewn perthynas â Threthau Unedol Busnesau (CUB).

**Trethi Busnes**

7. Er hynny, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau mewn perthynas â Threthi Busnes Unedol (UBR). Caiff y Dreth Fusnes ei rheoli yn unol â darpariaethau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a gellir rhoi Cymorth Treth i fusnesau unigol fel y gwêl yr awdurdod lleol yn dda. Gellid dewis rhoi cymorth treth i'r categorïau canlynol o fusnesau:

cyrff dielw;

siopau, swyddfeydd post ac unrhyw fusnes bach allweddol mewn ardal wledig (mae Cymru gyfan wedi'i chlustnodi fel ardal wledig i'r perwyl hwn) ; a

busnesau, o unrhyw faint, sy'n bygwth cau o ganlyniad i amodau masnachu anodd (cymorth caledi).

Er mwyn ymestyn y dewis, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.

8. Er nad yw'n bosibl ymestyn y sail y gellir rhoi Cymorth Treth Busnes, byddai, mewn

egwyddor, yn bosibl annog awdurdodau lleol i wneud mwy o ddefnydd o’r pwerau dewisol sydd ganddynt yn barod. Nid oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r pwerau hyn ar hyn o bryd. Er mwyn annog awdurdodau lleol i wneud mwy o ddefnydd ohonynt, efallai y byddai’r Cynulliad Cenedlaethol am gynnig mwy o iawndal na’r 75% a gynigir ar hyn o bryd i awdurdodau lleol. ( Byddai’r goblygiadau ariannol yn cwympo ar ysgwyddau'r Cynulliad.)

9. Gellid rhoi iawndal ychwanegol yn gyfartal ledled Cymru, gyda chyfraddau gwahanol yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd a Dwyrain Cymru, neu yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd yn unig. Gallai’r cyfraddau iawndal newid hefyd rhwng y tri chategori dewisol. Caiff y cynnig ei ystyried gan y gweithgor sydd wedi’i sefydlu i edrych ar gymorth gweithredu.

**Grantiau**

10. Ar gyfer cwmnïau, mae consesiynau treth yn gweithredu yn ôl cyfradd ymylol y dreth. Gan amlaf, tua 25% yw'r ffigur hwn. Gallai’r grantiau fod yn fwy neu’n llai, drwy roi cymhorthdal ar gyfer cyfran uwch neu lai o'r gwariant perthnasol. Gan fod y grantiau’n amodol ar i'r cwmni ymwneud â meysydd penodol, mae'n haws hefyd targedu'r gwariant. Fel gyda Threthi Busnes, y Cynulliad fydd yn ysgwyddo'r goblygiadau ariannol.

11. Yn ogystal â rhoi cymhorthdal ar gyfer gwariant penodol, gallai grantiau wneud cyfraniad at gyfalaf gweithio’r cwmni.

12. Ceir dau fater sy’n ymwneud â rhoi grantiau cymorth gweithredu:

- pa gyfran fydd yn newid ‘penderfyniadau’ cwmnïau; a
- pa mor hir y mae angen rhoi'r grant.

13. Er bod lefel y grant yn fater o farn, mae canllawiau’r Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i gymorth gweithredu gael ei leihau’n raddol dros gyfnod o amser. Gallai grant gael ei osod ar 30% ar gyfer y flwyddyn gyntaf, 20% ar gyfer yr ail, ac yn y blaen. Os yw'r cymorth gweithredu yn mynd i gael ei ddefnyddio i alluogi cwmnïau i barhau â’r gweithgareddau, bydd rhaid i gwmnïau roi ystyriaeth i'r canlyniadau ariannol ymhell ar ôl i gyfnod y grant ddod i ben. Os caiff ei ddefnyddio i gynorthwyo gweithgareddau sydd wedi’u cyfyngu gan amser- e.e project arloesol – ni fydd angen i gwmnïau ystyried unrhyw ganlyniadau ariannol parhaus. Yn y naill achos a'r llall, bydd y cwmnïau yn penderfynu ar sail y pecyn cyfan sydd ar gael.

**Cymorth i ddarparu gofal plant**

14. Gellir egluro hyn drwy gynllun Projectau Arddangos Gofal Plant, a lansiwyd yng Nghymru

am gyfnod o dair blynedd er mwyn helpu i lenwi’r bwlch yn y ddarpariaeth gofal plant o dan oed ysgol. Un o brif amcanion y cynllun oedd dangos i gyflogwyr y byddai yna fanteision sylweddol iddynt o lunio partneriaethau i ddatblygu darpariaeth gofal iechyd ar gyfer y grp oedran hwn.

15. Rheolwyd y cynllun gan Chwarae Teg ac yn ystod y bedair blynedd, mae £350,000 o gyllid wedi bod ar gael ar gyfer y dair blynedd gyntaf a £150,000 ar gyfer 1999-2000. Mae cymorth grant ar gael i feithrinfeydd a rhwydweithiau gofal plant a gall gynnwys costau cychwynnol. Er hynny, bu’n anodd denu ymwneud llawn cyflogwyr y sector preifat ac yn y flwyddyn gyfredol hon, canolbwyntiwyd ymdrechion yn y sectorau addysg bellach ac uwch. Drwy ddefnyddio’r rhain fel craidd, gobeithir y bydd yn bosibl annog cyflogwyr eraill yn yr ardal leol i gymryd rhan.

16. Er bod y cynllun hwn wedi darparu cymorth gweithredu (o dan y rheolau *de minimis*), mae ymateb y sector preifat wedi bod yn siomedig iawn. Bydd angen archwilio’r rhesymau am hyn mewn cydweithrediad â Chwarae Teg.

**Pwerau’r Cynulliad Cenedlaethol**

17. Gellir rhoi Cymorth Treth Busnes i awdurdodau lleol o dan ber adrannau 47 a 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

18. Efallai y telir y mwyafrif o fathau o grantiau gweithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan ber adran 8 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982, er bod rhai cyfyngiadau ynghylch at ba ddibenion y gellir rhoi cymorth grant a gallai hynny olygu nad oes cymorthdaliadau ar gael ar gyfer gweithgareddau penodol. Bydd angen i’r achosion hyn gael eu harchwilio’n unigol.

19. Mae taliadau i’r Cynghorau Hyfforddi a Menter (CHM) yn cael eu gwneud gan y Cynulliad o dan adran 2(1) a (2) o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1982 (fel y’i diwygiwyd gan adran 25 o Ddeddf Datblygu Diwydiannol 1982. Yn amodol ar eu Herthyglau a’u Memorandwm Cymdeithasu, a thelerau’r contract sy’n berthnasol i’w gweithredoedd, gall y CHMau wneud taliadau, lle bo’n briodol, i fudiadau ar gyfer rhoi hyfforddiant a’r gwasanaethau a nodir mewn cytundebau gyda’r Cynulliad.

20. Telir am grantiau sy’n berthnasol i ddarparu gofal plant o dan Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1982.